# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1- Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 12 Hydref 1999

**R Dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**( Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa gynlluniau sydd ganddo i sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn erbyn cyrff sy'n derbyn arian gan y Cynulliad Cenedlaethol yn agored ac yn deg. (OAQ1367AG)

**2. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa gyngor a roddir ganddo i Gynghorau Sir/ Bwrdeistref Sirol yngln â lefel Treth Cyngor y flwyddyn nesaf wrth iddynt ddechrau paratoi cyllidebau 2000-2001. (OAQ1354VB)

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyfraniad a wneir gan Gynghorau Hyfforddiant a Menter ar ostwng dieithrwch cymdeithasol yng Nghymru. (OAQ1346VB)

**4. Alison Halford (Delyn);** A wnaiff drefnu adolygiad o lefelau cyflog cadeiryddion ac aelodau Cyrff a Noddir gan y Cynulliad. (OAQ1352VB)

**5. Lynne Neagle (Tor-faen);** Pa gamau a gymerir ganddo i ddelio â phroblemau dieithrwch cymdeithasol ymhlith pobl ifanc. (OAQ1364JS)

**6. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff wneud datganiad ar faint o arian cyfatebol fyddai'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd er mwyn i Gymru fanteisio ar yr arian Amcan Un sydd ar gael. (OAQ1351VB)

**7. Dr Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff wneud datganiad ar Wariant y Llywodraeth yn hen gymunedau glofaol Cymru ers 1997. (OAQ1353VB)

**8. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Sut y mae'n bwriadu sicrhau, trwy Bartneriaeth Busnes y Cynulliad, bod mentrau bach a chanolig yn chwarae rhan lawn wrth ddefnyddio cyllid o Ewrop. (OAQ1356VB)

**9. Geraint Davies (Rhondda);** A wnaiff gefnogi cais y 'Valleys Network' i greu llinell reilffordd ddeuol o Bontypridd i Dreherbert. (OAQ1358VB)

**10. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff restru'r gwahanol sianelau sydd ar agor iddo er mwyn trafod gwariant Cronfeydd Strwythurol Ewrop yng Nghymru gyda'r Comisiynydd Ewropeaidd dros Bolisi Rhanbarthol. (OAQ1363JS)

**11. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff gyflwyno system i sicrhau y gall pob pensiynwr dderbyn tocynnau bws rhad yng Nghymru. (OAQ1349VB)

**12. David Davies (Mynwy);** A oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer cyhoeddi adroddiad gwerthusiad ymgyrch wybodaeth y Cynulliad. (OAQ1362JS)

**13. Jane Davidson (Pontypridd);** A yw'n gallu rhoi sicrwydd y bydd gan y Cynulliad ffordd o gymryd tystiolaeth ysgrifenedig yngln â gynnau awyr, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref. (OAQ1348VB)

**14. David Melding (Canol De Cymru);** A fydd yn ymrwymo i leihau dieithrwch cymdeithasol trwy gychwyn ar raglen o adeiladu ysbytai. (OAQ1343VB)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A fydd yn gwneud datganiad

yngln ag unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Prif Weinidog, Canghellor y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar arian cyfatebol Amcan Un. (OAQ1359VB)

**16. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd yn cadarnhau bod gwariant ar Amcan Un yn gyfartal ym mhob un o saith mlynedd y cynllun, a'i fod felly yn gofyn i Ganghellor y Trysorlys roi'r arian cyfatebol sydd ei angen gan y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn hytrach na dibynnu ar arian sydd eisoes wedi'i ddyrannu. (OAQ1347VB)

**17. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gyhoeddi rhaglen y llywodraeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. (OAQ1365JS)

**18. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** Sut mae'n disgwyl i bartneriaeth y Cynulliad â busnes fod o gymorth wrth hybu ymchwil a datblygiad cwmnïau Cymru. (OAQ1357)

**19. Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** A wnaiff ystyried llunio Canllawiau Cenedlaethol i sicrhau 'hawliau cyflogaeth' Gwirfoddolwyr yng Nghymru. (OAQ1350JS)

**20. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gamau a gymerir i sicrhau bod cyfran fwy o arian Ewrop yn cael ei sianelu i'r sector preifat. (OAQ1366VB)